Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

# Cais i drethu Cerbyd Nwyddau Trwm (HGV)

**V85W**

**Dim ond os ydych yn gwneud cais i drethu cerbyd nwyddau trwm (HGV) y mae angen ichi lenwi'r ffurflen hon. I drethu cerbydau eraill defnyddiwch y 'Cais am dreth cerbyd' (V10W).**

Ysgrifennwch mewn **inc du** gan ddefnyddio **PRIF LYTHRENNAU.**

## 1 Eich manylion

Teitl (Mr, Mrs, Miss, Ms): ____________________

Enw'r cwmni (os yn briodol): ____________________

**Cyfeiriad** a chod post: ____________________

____________________

____________________

## 2 Manylion y cerbyd

**Rhif cofrestru:** [ ] 2

**Gwneuthuriad:** ____________________

**Dosbarth treth rydych yn gwneud cais amdano:**

HGV ☐ Ôl-gerbyd HGV ☐ Cerbyd Adfer ☐
HGV Preifat ☐ Mathau Arbennig ☐ Cerbyd Ynys Fechan ☐
Cludiant Cyfun ☐

**Ticiwch os yw'ch cerbyd wedi'i eithrio rhag profi cerbydau nwyddau** ☐
**(Gweler adran E dros y dudalen)**

**Ar gyfer cerbydau cadarn**

Pwysau'r cerbyd: [ ] kg Nifer o echelau: [ ] Band treth: [ ]

Os yn 12000kg neu drosodd ac yn cael ei ddefnyddio i dynnu unrhyw ôl-gerbyd sy'n pwyso dros 4000kg, beth yw uchafswm pwysau unrhyw ôl-gerbyd a dynnir? [ ] kg

**Ar gyfer cerbydau cymalog**

Pwysau cyfun y cab a'r ôl-gerbyd rhannol: [ ] kg

Nifer yr echelau ar y cab: [ ] Band treth: [ ]

Faint o echelau fydd gan yr ôl-gerbyd rhannol fydd ynghlwm?

Un echel ☐ Dwy echel ☐ Tair echel neu fwy ☐

## 3 Manylion y treth cerbyd

**Am faint o amser rydych chi am i'r dreth barhau?** **Chwe mis** ☐ **12 mis** ☐

**Pa fis a blwyddyn rydych am i'r dreth ddechrau?** **Mis** [ ] **Blwyddyn** [ ]

**Ni ellir ôl-ddyddio'r dreth i ddyddiad cyn y dydd cyntaf o'r mis y byddwch yn gwneud y cais hwn.**

**Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i bob gyrrwr gael yswiriant modur pan fyddant yn defnyddio cerbyd modur ar y ffordd neu mewn unrhyw fan cyhoeddus arall.**

**Gall methu â threthu ac yswirio neu wneud HOS ar eich cerbyd arwain at ddirwy neu erlyniad.**

1

**Official use only (V85W)**
9/21

Complete field 9 in ALL cases
Complete field 7 if the tax is HGV or Trailer HGV.

**VC** [ ] 3

**Prefix** [ ] 4

**Amount Paid** [ ] 5

**Period** [ ] 6

**Wheel plan** [ ] 7

**Trailer Weight** [ ] 8

**TC** [ ] 9

Tax Band ____________________

Expiry Month ____________________

**SR** [ ]

**V62** [ ]

**Green new keeper slip** [ ]

**V5C Changes** [ ]

## A Pryd y dylech ddefnyddio'r ffurflen hon

Dim ond i drethu cerbydau dros 3500kg fel HGV, HGV Ôl-gerbyd, HGV Preifat, Mathau Arbennig, Cerbyd Ynys Fechan, Cerbyd Adfer neu gludiant cyfun y dylech ddefnyddio'r ffurflen hon.

## B Bandiau treth

Mae'r dreth yn dibynnu ar ba fand treth (A i G) y mae eich cerbyd mewn.

- Ar gyfer cerbydau cadarn, mae'r band treth yn ddibynnol ar bwysau'r cerbyd a nifer yr echelau.

Rhaid i chi dalu treth ychwanegol os yw eich cerbyd yn pwyso dros 12000kg a'i fod ar unrhyw amser yn tynnu ôl-gerbyd dros 4000kg.

- Ar gyfer cerbydau cymalog, mae'r band treth yn ddibynnol ar bwysau cyfun y cab a'r ôl-gerbyd rhannol (pwysau plât) a'r nifer o echelau sydd gan bob un.

Gallwch ddod o hyd i ba fand treth y mae eich cerbyd mewn trwy fynd i **www.gov.uk/vehicle-tax-rate-tables**

## C Ble i gael eich treth cerbyd

Gallwch wneud cais yn un o ganghennau Swyddfa'r Post® sy'n delio â threth cerbyd. I ddod o hyd i'ch cangen agosaf:

- ewch i **www.postoffice.co.uk/branch-finder**
- neu ffoniwch 0345 722 3344

## D Y dogfennau y bydd angen i chi eu dangos

- **Tystysgrif Gofrestru Cerbyd V5CW (llyfr log) neu'r slip ceidwad newydd gwyrdd**
- **Tystysgrif MOT neu brawf cerbyd nwyddau ddilys –** rhaid i'r dystysgrif fod yn ddilys ar y dyddiad pan fydd y dreth yn dechrau. Os oes gennych gerbyd nad oes angen tystysgrif prawf na MoT arno, gweler adran E isod
- **Os rydych yn hawlio eithriad rhag talu treth cerbyd neu ostyngiad o 50% mewn treth cerbyd rhaid ichi gyflwyno un o'r canlynol –** Tystysgrif Hawl i DLA, Tystysgrif Hawl i Daliad Annibynnol Personol (PIP), Tystysgrif hawl i Daliad Anabledd Plentyn (CDP), Tystysgrif Hawl i Daliad Anabledd Oedolyn (ADP) neu WPA0442

**Rhaid i'r holl ddogfennau uchod fod yn rhai gwreiddiol; nid llungopïau na chopïau ffacs.**

- **Tystysgrifau yswiriant neu nodyn dros dro** (mae copïau sydd wedi'u lawrlwytho yn dderbyniol, nid yw llungopïau) yn ddilys ar y dyddiad y daw'r dreth i rym, ar gyfer cerbydau a gofrestrwyd gyda chyfeiriad Gogledd Iwerddon

## E Cyflwyno tystysgrif GVT

**Pan fyddwch yn trethu eich cerbyd, rhaid ichi gyflwyno tystysgrif prawf cerbyd nwyddau dilys oni bai nad oes raid i'ch cerbyd gael ei brofi. Mae cerbyd nwyddau yn cael ei eithrio o brofion (ddim yn gorfod cael prawf) os bydd unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol:**

- Ei fod yn cael ei ddefnyddio ar y ffordd gyhoeddus trwy orchymyn a wnaed dan adran 44 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988, neu Erthygl 60 o orchymyn Traffig y Ffyrdd (NI) 1995
- Ei fod yn cael ei ddefnyddio ar rai ynysoedd y cyfeirir atynt yn rheoliad 44(2) o Reoliadau (Platiau a Phrofi) Cerbydau Nwyddau 1988, neu Erthygl 65 o orchymyn Traffig y Ffyrdd (NI) 1995
- Mae'n ddosbarth o gerbyd a restrir yn atodlen 2 o Reoliadau (Platiau a Phrofi) Cerbydau Nwyddau 1988, neu Erthygl 65 o orchymyn Traffig y Ffyrdd (NI) 1995. (Am fanylion y cerbydau hyn gweler ffurflen V112G.)
- Mae'n locomotif trwm/ysgafn neu dractor modur, fel y diffinnir yn Neddf Traffig Ffyrdd 1988, neu orchymyn Traffig y Ffyrdd (Gogledd Iwerddon) 1995 ond bod pwysau refeniw wedi ei roi iddo

Os bydd unrhyw un o'r uchod yn berthnasol i'ch cerbyd, ticiwch y blwch priodol yn adran 2 dros y dudalen.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eithrio rhag profi, cysylltwch â'r:**

Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA)
Ellipse
Padley Road
Abertawe
SA1 8AN.

**Ffôn:** 0300 123 9000

**Ar gyfer cerbydau a gofrestrwyd gyda chyfeiriad Gogledd Iwerddon cysylltwch:**

Asiantaeth Profi Gyrwyr a Cherbydau (DVAT)
Gwasanaethau Cwsmeriaid
Coleraine County Hall
Castlerock Road
Waterside,
Coleraine
BT51 3HS

**Ffôn:** 0845 601 4094

## F Sut i dalu

Gallwch dalu gyda cherdyn debyd, cerdyn credyd, Debyd Uniongyrchol, siec neu archeb bost (yn daladwy i 'Swyddfa'r Post Cyf', cerdyn cyllido Swyddfa'r Post, neu gyda sieciau teithio (mewn punnoedd sterling).

Mae'r gwahanol gyfraddau o dreth yn 'Cyfraddau treth cerbyd' (V149W) sydd ar gael yn **www.gov.uk/vehicle-tax-rate-tables**

**Os byddwch yn talu gyda siec sy'n bownsio, ni fydd y cerbyd wedi'i drethu.**

## G Nodiadau arbennig

**Gallwch drethu eich cerbyd yn** un o ganghennau Swyddfa'r Post® sy'n delio â threth cerbyd gan ddefnyddio eich V5CW neu slip ceidwad newydd gwyrdd. Efallai y bydd angen ichi hefyd lenwi 'Cais am dystysgrif cofrestru cerbyd' (V62W), os mai dim ond y slip gwyrdd sydd gennych.

**Os nad oes gennych V5CW neu'r slip ceidwad newydd gwyrdd bydd angen ichi lenwi V62W gyda'r ffurflen hon.** Os nad chi yw ceidwad cofrestredig y cerbyd efallai na fyddwch yn medru ei drethu nes byddwch yn cael V5CW yn eich enw chi.

**Gallwch lawr lwytho'r ffurflen V62W o www.gov.uk/dvlaforms** neu gael un o unrhyw gangen o Swyddfa'r Post® sy'n delio â threth cerbyd.

## H Rhagor o wybodaeth

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am drethu eich cerbyd o'r wefan yn **www.gov.uk/treth-car**

Os nad ydych yn fodlon â'r gwasanaeth a gewch gennym, ewch i **www.gov.uk/dvla** ar gyfer gwybodaeth am ein gweithdrefn gwyno.

**Gallwch gysylltu â ni yn y ffyrdd canlynol:**

Dros y ffôn: 0300 790 6802 neu 0300 790 6819 am y llinell uniongyrchol Gymraeg (mae'r llinellau ffôn ar agor rhwng 8am a 7pm o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 8am a 2pm ar ddydd Sadwrn. Bydd rhai galwadau'n cael eu monitro at ddibenion hyfforddiant ac ansawdd.)

Trwy ysgrifennu i: Ymholiadau Cwsmeriaid (Cerbydau) DVLA, Abertawe, SA6 7JL.

## I Diogelu data

Mae DVLA yn trafod eich data personol yn unol â chyfraith cerbydau ffyrdd a chyfreithiau gwarchod data. Mae'r gyfraith yn ein galluogi ni i ryddhau eich data i'r heddlu a chyrff gorfodaeth eraill. Rydym hefyd yn darparu data i gwmnïau eraill ble y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu. Am wybodaeth bellach ynghylch sut rydym yn prosesu eich data, eich hawliau a phwy i gysylltu gyda, gweler ein hysbysiad preifatrwydd yn www.gov.uk/government/publications/dvla-privacy-policy.cy

*Prynu cerbyd?*

*Nid yw'r dreth yn drosglwyddadwy mwyach felly rhaid i chi ei drethu cyn i chi ei ddefnyddio.*

**www.gov.uk/vehicletaxrules**

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID